Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Maenclochog**

**Neuadd Gymunedol Maenclochog
Maenclochog
SA66 7LA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Maenclochog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Ddydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Victoria Russant<br>Eloise Himsworth |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae bron pob plentyn wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rhydd a chael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael. Caiff rhai o'r plant gyfle i gyfathrebu â'i gilydd ac i wneud dewisiadau, ond ni chaiff lleisiau'r plant eu clywed bob amser.

Mae'r staff yn dilyn rhai polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo diogelwch, llesiant a ffyrdd iach o fyw. Maent yn cynnig rhai gweithgareddau i hyrwyddo diddordebau'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn cynnig rhai adnoddau i ddiwallu gofynion y plant a'u camau datblygu unigol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cydymffurfio â rhai o'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt bartneriaeth ddigonol â'r rhieni.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r mwyafrif o'r plant wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan mewn amrywiaeth sylfaenol o weithgareddau sy'n cael eu cynnig, er enghraifft, chwarae â chymeriadau pren yn yr hambwrdd twff. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a chartrefol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn rhyngweithio'n hyderus. Fodd bynnag, roedd rhai cyfnodau lle'r oedd y plant yn ei chael hi'n anodd rhannu adnoddau a chymryd eu tro. Cawsant gymorth i ddeall pa reolau cymdeithasol i'w dilyn. Mae'r plant yn dechrau dangos eu bod yn poeni ac yn gofalu am eraill. Er enghraifft, gwnaeth plentyn ymateb i blentyn arall a oedd drist yn ystod amser cinio drwy gynnig ei helpu. Yn yr awyr agored, cydweithiodd rhai o'r plant a chymryd eu tro, a gwelwyd rhai ohonynt yn aros yn eiddgar am eu tro i fynd ar y beiciau.

Caiff rhai o'r plant y cyfle i gyfathrebu ac i wneud dewisiadau, ond nid yw lleisiau'r plant bob amser yn amlwg. Er enghraifft, nododd plentyn yn ystod amser byrbryd ei fod am helpu, ond ni chafodd ymateb. Mae rhai o safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, wrth i'r plant chwarae yn yr ardal chwarae rôl dan do roeddent yn gallu dewis cyfarpar ac adnoddau yn rhydd.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn egnïol wrth iddynt chwarae. Maent yn dangos peth diddordeb a mwynhad wrth gymryd rhan, ond ni chânt y cyfle i ddewis gweithgareddau a gynlluniwyd nac i ddilyn eu diddordebau er mwyn datblygu eu dysgu ymhellach. Mae rhai o'r plant yn dyfalbarhau i gwblhau gweithgareddau, er enghraifft, paentio ar yr îsl a chreu gwrthrychau gan ddefnyddio'r Knex. Mae'r plant yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardal dan do, yn enwedig pan fyddant yn mynd i'r neuadd. Mae'r plant yn mwynhau'r rhyddid i wneud dewisiadau yn yr ardal chwarae awyr agored, er enghraifft, wrth lenwi a gwagio cynwysyddion â dŵr.

Caiff y mwyafrif o'r plant gyfle i ddatblygu eu sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau cyfyngedig a drefnir ar eu cyfer. Ond ni welwyd fod y plant yn cael rhyddid llwyr i ddefnyddio'r adnoddau, gan fod y ddarpariaeth chwarae yn gyfyngedig.

## Gofal a Datblygiad **Digonol**

Mae'r staff yn dilyn rhai gweithdrefnau clir wrth gynnig gofal a pharatoi gweithgareddau. Mae'r staff yn gyfarwydd â'r weithdrefn paratoi byrbryd, ond nid ydynt yn gwisgo menig na ffedogau, nac yn sicrhau bod y bwyd a'r diod yn cael eu storio'n briodol. Roedd dŵr yfed ar gael i'r plant drwy gydol y sesiwn. Wrth fynd i'r toiled, sydd ym mhrif adeilad y neuadd, mae'r staff yn cefnogi'r plant i fod yn annibynnol, er enghraifft, gadael iddynt olchi eu dwylo eu hunain. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud yn siŵr fod cyflenwadau ar gael i'r plant, er enghraifft papur toiled, er mwyn cefnogi eu hannibyniaeth yn llawn wrth ddefnyddio'r toiled. Mae'r arfer o olchi dwylo yn parhau cyn amser byrbryd. Mae polisi diogelwch ac amddiffyn plant ar waith ac mae bron pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn. Mae aelodau o'r staff hefyd yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Atal. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn glir ynghylch y gofynion i gofnodi anafiadau sy'n bodoli.

Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd dulliau cyfathrebu clir ac yn annog y plant i gymdeithasu, cydweithio a pharchu ei gilydd. Mae'r staff yn canmol y plant ar lafar, gan ddweud "*Wow!*" a "*Da iawn*." Maent yn rhyngweithio â'r plant yn rheolaidd ac yn cynnig rhai cyfleoedd iddynt ystyried eu teimladau a'u hymddygiadau, yn ogystal â rheolau a ffiniau cymdeithasol. Yn ystod chwarae awyr agored, mae'r staff yn awgrymu y dylai'r plant rannu'r teganau reidio, gan ddweud *"Look, there are two seats on the bike."*
Mae'r staff yn annog y plant i fod yn annibynnol wrth iddynt geisio gwisgo eu cotiau cyn mynd allan i'r ardal awyr agored, ac yn dilyn amser byrbryd wrth i'r plant glirio eu platiau a'u cwpanau.

Ceir rhai cyfleoedd addas i hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Fodd bynnag, nid oes cynllun penodol ar waith ar gyfer gweithgareddau. Yn ystod yr ymweliad arolygu, dywedodd y staff wrthym eu bod yn canolbwyntio ar weithgareddau yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid oedd gweithgaredd penodol wedi'i gynllunio na'i gynnal pan oedd y plant yn yr awyr agored. Roedd pwyslais mawr ar chwarae rhydd, gan alluogi'r plant i ddewis o blith yr adnoddau oedd wedi'u gosod allan ar eu cyfer.
Mae'r staff yn eistedd ar y llawr ymhlith y plant ac yn ymuno â'u chwarae.
Ni chaiff yr adnoddau na'r ddarpariaeth eu defnyddio mewn ffordd effeithiol bob amser oherwydd diffyg gwaith cynllunio a threfnu. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar chwarae a dysgu'r plant.
Mae arsylwadau sylfaenol yn cael eu cynnal er mwyn olrhain datblygiad y plant. Fodd bynnag, gellir gwella ar y rhain ymhellach yn unol ag arfer gorau. Caiff y Gymraeg ei defnyddio'n barhaus.

| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
|---|---|

Lleolir y gwasanaeth yn neuadd y pentref ac mae ystafell benodol ar gyfer y ddarpariaeth. Mae'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lle diogel i'r plant ar y cyfan. Mae modd mynd i mewn i'r adeilad drwy ddrysau dan glo a chaiff cofnodion ymwelwyr eu cwblhau'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i'r carpedi a pha mor lân ydyw, yn gyffredinol. Caiff cofrestr plant ei chwblhau ar gyfer pob sesiwn.

Mae asesiadau risg sylfaenol ar gyfer yr amgylchedd ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r aelodau o staff bob amser yn cynnal gwiriadau o'r safle cyn i'r plant gyrraedd y gwasanaeth a chyn iddynt ddefnyddio'r ardaloedd chwarae. Gall y plant ddefnyddio ardal awyr agored ddynodedig, sy'n rhoi cyfleoedd priodol i ddatblygu sgiliau'r plant. Fodd bynnag, ni chaiff ei defnyddio i'w llawn botensial oherwydd diffyg cynllunio.

Mae'r amgylchedd yn addas i'r plant ei ddefnyddio. Caiff gwaith celf y plant ei arddangos yn ogystal ag arwyddion Cymraeg.
Mae'r adnoddau'n briodol ar gyfer ystod oedran y plant. Roeddent yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da ac mae amrywiaeth ddigonol ar gael i'r plant. Fodd bynnag, mae angen trefnu'r deunyddiau chwarae yn well er mwyn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael arnynt yn gyson a'u bod yn cael y rhyddid i ddewis ac i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Gwelsom y gallai'r plant ddewis o weithgareddau, megis chwarae rôl, byd bach, adeiladu, celf a chrefft ac ardal 'gysurus' gyda llyfrau.

Mae'r staff yn sicrhau y cynhelir ymarferion tân. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion hyn yn cynnwys yr amser y cynhaliwyd yr ymarferion tân. Nid oedd tystysgrifau diogelwch ar gael i ni eu gweld ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu. Fodd bynnag, anfonwyd tystiolaeth ohonynt atom yn dilyn yr ymweliad. Daeth y dystysgrif cynnal profion ar ddyfeisiau cludadwy (PAT) i ben ym mis Ebrill 2021. Fodd bynnag, cafodd hyn ei unioni yn dilyn yr ymweliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol i fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Nid ydynt wedi cwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal ers 2021 a nodwyd hyn fel maes i'w wella. Mae'r polisïau gofynnol ar waith yn y gwasanaeth, ond nid yw'r staff yn gwbl gyfarwydd â'r holl weithdrefnau, gan gynnwys cofnodi anafiadau sy'n bodoli a dilyn y drefn ar gyfer newid cewynnau.

Mae'r staff yn cwblhau cofnodion mewn perthynas â damweiniau. Fodd bynnag, nid yw'r holl gofnodion yn cynnwys llofnodion y staff a'r rhieni. Nid oedd cofnodion damweiniau ar gael i ni eu gweld ar ddiwrnod yr arolygiad gan na allai'r staff ddod o hyd iddynt. Nid yw cydsyniad y rhieni ar waith yn llawn ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu'r gwasanaeth. Caiff presenoldeb y plant a'r staff ei nodi ar y gofrestr gan nodi amser cyrraedd a gadael.

O bryd i'w gilydd, mae'r gwasanaeth yn defnyddio aelodau'r pwyllgor i fodloni gofynion o ran cymarebau. Fodd bynnag, nid yw darparwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod gwybodaeth recriwtio ar waith. Gwelsom ffeiliau'r staff a nodwyd nad oeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol yn ôl y rheoliadau. Nid yw'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd. Codwyd hyn fel argymhelliad yn yr arolygiad blaenorol. Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Rydym wedi cyhoeddi maes i'w wella o ran addasrwydd y staff a'r broses oruchwylio. Rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Gwnaethom siarad â rhieni a gofalwyr yn ystod yr ymweliad. Nodwyd fod rhai rhieni yn fodlon ar y gwasanaeth ac yn cydnabod bod eu plant yn hapus wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad, *“He loves it here.”* Fodd bynnag, teimlai eraill nad oeddent yn cael unrhyw wybodaeth mewn perthynas â datblygiad eu plant nac adborth yn dilyn sesiynau.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Dod yn gyfarwydd â gofynion a dewisiadau'r plant er mwyn cynllunio yn unol â'u diddordebau.
A2: Staff i sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn drefnus ac ar gael i'r plant.
A3: Arsylwi ar y plant er mwyn datblygu camau nesaf eu dysgu a'u datblygiad.
A4: Staff i hyrwyddo llais y plentyn ymhellach.
A5: Staff i wella arferion hylendid ymhellach.
A6: Staff a rhieni i lofnodi'r holl gofnodion damweiniau.
A7: Staff i ddatblygu dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd ymhellach.
A8: Staff i gwblhau asesiad risg gweledol dyddiol ar gyfer pob ardal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio gan nad oedd adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael ei gynnal ers 2020. Mae darparwr y gwasanaeth wedi methu â chasglu barn defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn llunio adolygiad. | Newydd |
| 28 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw dogfennau addasrwydd pob aelod o'r staff ar waith. | Newydd |
| 29 | Nid yw'r staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i gael sesiynau goruchwylio un i un. Codwyd hyn fel argymhelliad yn yr ymweliad arolygu blaenorol. Sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i'r staff gael goruchwyliaeth un i un. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/03/2023